# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN (3)-07-08

**Dyddiad y Cyfarfod: Dydd Iau 24 Ebrill 2008**
**Amser y cyfarfod: 9.30 - 11.30am**
**Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Alun Cairns (Cadeirydd), Gorllewin De Cymru
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Ffred Jones, Arfon
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Jenny Randerson, Canol Caerdydd
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Y Gwasanaeth Pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Abigail Phillips, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

**Eitem 2**

Michael Williams, Prif Weithredwr, Tai Gwalia
Hugh Jones, Cyfarwyddwr Cyllid, Tai Gwalia
Jeremy Nixey, Prif Weithredwr, Shaw Healthcare

**Eitem 3**

David Harris, Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarthol, Cowlin Construction
Giles Frost, Pennaeth Adran PPP , Babcock and Brown
Giles Parker, Cyfarwyddwr Datblygu, Babcock and Brown

**Eitem 4**

Mike Clancy, Pennaeth y Tîm Mesur Teithio gan Ddysgwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru;
Carolyn Hughes, Rheolwr Prosiect, Tîm Mesur Teithio gan Ddysgwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle.

### Eitem 2. Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat: tystiolaeth gan Tai Gwalia a Shaw Healthcare (9.30 - 10.15)

**Papur:**

FIN(3) 07-08 (p1) tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat gan Tai Gwalia.
FIN(3) 07-08 (p2) tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat gan Shaw Healthcare

2.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Tai Gwalia a Shaw Healthcare.

2.2 Cytunodd Shaw Healthcare i ddarparu nodyn ar yr enghreifftiau o bartneriaethau cyhoeddus-preifat y mae Shaw yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd, yn benodol y prosiect uned gofal yn Sir Benfro sydd yn y cam adeiladu yn awr.

2.3 Cytunodd Tai Gwalia i ddarparu nodyn ynghylch yr enghraifft o bartneriaethau cyhoeddus-preifat a ddefnyddir mewn prosiectau yn Aberystwyth a Bangor.

2.4 Cytunodd Shaw Healthcare i ddarparu nodyn ar drosglwyddiadau staff i'r sector preifat o ganlyniad i gontractau partneriaeth mewn perthynas â thelerau ac amodau y staff hynny.

2.5 Cytunodd Shaw Healthcare a Gwalia i ddarparu nodyn yn amlinellu eu barn ar y diffyg arbenigedd canfyddedig yn y sector cyhoeddus yn y sgiliau sy'n angenrheidiol i drafod telerau prosiectau partneriaeth cyhoeddus-preifat llwyddiannus .

## Eitem 3.Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat: tystiolaeth gan Cowlin Construction a Babcock and Brown (10.15 - 11.00)

**Paper:**

FIN(3) 07-08 (p3) tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat gan Cowlin Construction
FIN(3) 07-08 (p4) tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat gan Babcock and Brown

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Cowlin Construction a Babcock and Brown

## Eitem 4. Ystyried y Mesur arfaethedig Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (11.00 - 11.30)

**Papur:**

FIN(3) 07-08 (p5) Mesur Arfaethedig Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)
FIN (3) 07-08 (p6) Mesur Arfaethedig Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) Memorandwm Esboniadol
FIN(3) 07-08 (p7) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - y Mesur arfaethedig Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor oblygiadau ariannol y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) drafft.

**Y Gwasanaeth Pwyllgorau**